**Dyddiedig 28 MAWRTH 2023**

---

**GORCHYMYN**

**(KILN LANE, YR HÔB)**

**(GWAHARDD GYRRU) (AC EITHRIO MYNEDIAD)**

**CYNGOR SIR Y FFLINT 2023**

---


Katie Wilby,

Prif Swyddog

(Gwasanaethau Stryd a Chludiant),

Neuadd y Sir,

Yr Wyddgrug,

Sir y Fflint,

CH7 6NF

# GORCHYMYN
# (KILN LANE, YR HÔB)
# (GWAHARDD GYRRU) (AC EITHRIO MYNEDIAD)
# CYNGOR SIR Y FFLINT 2023

Mae Cyngor Sir y Fflint, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan Adrannau 1, 2 a 3 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("Deddf 1984"), fel y'i diwygiwyd, a'r holl bwerau galluogi eraill a roddwyd iddo, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Ac eithrio fel a nodir yn Erthygl 2 y Gorchymyn hwn, ni chaiff unrhyw un achosi i unrhyw gerbyd deithio ar hyd y darn hwnnw o ffordd a nodir yng Ngholofn 1 Atodlen y Gorchymyn hwn, ac eithrio mynediad, i'r cyfeiriad a nodir yng Ngholofn 2 yr Atodlen honno.

2. Ni fydd unrhyw beth yn Erthygl 1 y Gorchymyn hwn yn berthnasol a fydd yn atal unrhyw un rhag achosi i unrhyw gerbyd deithio ar hyd y darn o ffordd y cyfeirir ato yn yr Erthygl honno, os ydi'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio:-

a) I gael mynediad at eiddo cyfagos;
b) Mewn argyfwng at ddibenion y Frigâd Dân, Ambiwlans neu Heddlu;
c) Yn feic pedalau, nad yw'n gerbyd modur;
d) Mewn cyswllt â-
i) Cynnal, gwella neu ailadeiladu'r darn ffordd dan sylw;
ii) Gosod, codi, addasu neu drwsio ar dir cyfagos i'r darn o ffordd a nodir, mewn perthynas ag unrhyw garthffos neu unrhyw brif gyflenwad, pibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu unrhyw linell o unrhyw rwydwaith cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003;
iii) Gweithrediadau adeiladu, diwydiannol neu ddymchwel;
e) Mewn gwasanaeth awdurdod lleol, cwmni cyfleustodau cyhoeddus neu Asiantaeth yr Amgylchedd yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;
f) Fel cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddiben dosbarthu neu gasglu pecynnau post fel y'i diffinnir yn Adran 125 o Ddeddf Gwasanaethau Post 2000.

3. Mae'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a roddir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at, ac nid yn amhariad ar, unrhyw gyfyngiad neu ofyniad sy'n berthnasol dan unrhyw reoliadau a wnaed neu sy'n cael effaith fel pe baent wedi'u gwneud dan Ddeddf 1984, neu gan neu dan unrhyw ddeddfiad arall.

4. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn fel mae'n berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

5. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Ebrill 2023 a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn (Kiln Lane, Yr Hôb) (Gwahardd Gyrru) (Ac Eithrio Mynediad) Cyngor Sir y Fflint 2023

ATODLEN

| Colofn 1 | Colofn 2 |
|---|---|
| Kiln Lane, Yr Hôb | I'r Dwyrain |
| | |

**RHODDWYD SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR SIR Y FFLINT** )
yn y fan hon )
ar y 28 diwrnod hwn o Mawrth 2023 )
ym mhresenoldeb:- )

20556

**Y CADEIRYDD** Mared Eastwood

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**~~PRIF SWYDDOG LLYWODRAETHU~~**

**~~UWCH GYFREITHIWR~~**